**Cofnodion Pwyllgor Clwb Mynydda Cymru a gynhaliwyd nos Lun, 13 Ionawr, 2025 drwy gyfrwng Zoom**

**Presennol**: Elen (EH)**(Cadeirydd),** Iolo Roberts (IPR),Iolo ap Gwynn (IAG),Dwynwen (DP), Dewi (DH), Richard (RR), Keith (KR), Eurig (EJ), Dilys (DAP), Steve (SW), Erwyn (ERJ), Mathew (MW)

Ymddiheuriadau: Gethin

| | | |
|---|---|---|
| 1. | **CROESO**<br><br>Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i Erwyn a Mathew,aelodau newydd y Pwyllgor, i'w cyfarfod cyntaf. | |
| 2. | **COFNODION**<br><br>Derbyniwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar y dyddiadau a nodir isod fel rhai cywir:<br><br>i. 2 Medi, 2024<br>ii. 28 Hydref, 2024 | |
| 3. | **MATERION ARIANNOL**<br><br>Cafwyd diweddariad gan DAP ynglŷn â'r sefyllfa gyfredol<br><br>Adroddodd<br><br>• parthed aelodaeth 2025 - erbyn 13 Ionawr bod 251 o aelodau wedi ailymaelodi, 47 o gyfeillion ar y llyfrau, a 16 aelod heb adnewyddu eu haelodaeth hyd yma<br>• bod gan y Clwb £18,500 yn y coffrau ar hyn o bryd ond bod angen gwneud taliadau i'r CMP a'r gwesty yn Crianlarich a olyga y bydd y swm yn gostwng yn sylweddol maes o law<br>• cyflwynwyd adroddiad blynyddol i'r Comisiynydd Elusennau ac hefyd hysbyswyd y Comisiynydd fod gan y Clwb bellach ddau ymddiriedolwr newydd, sef y ddau aelod newydd o'r Pwyllgor<br>• bod yr holl arian yng Nghronfa Goffa Gareth Pierce bellach wedi ei wario ar weithgareddau mewn partneriaeth â'r Urdd.<br><br>Cytunwyd nodi'r wybodaeth | |
| 4. | **RHESTR OFFER**<br><br>Cyflwynwyd rhestr o offer y Clwb gan y Trysorydd<br><br>Codwyd y materion canlynol<br><br>A. Defibs<br><br>• talodd DAP £272 am ddau fatri newydd i'r peiriannau defib (un yr un ar gyfer y gogledd a'r de) gan fod angen eu newid bob 3-4 blynedd.<br><br>• hefyd holodd, gan eu bod yn beiriannau costus, tybed a ddylid eu hyswirio rhag ofn i un ohonynt gael ei ddifrodi ac y byddai angen prynu un arall yn ei le<br><br>• Nododd ERJ fod y padiau cysylltiedig â'r peiriant hefyd â chyfnod penodol a bod | |

| | | |
|---|---|---|
| | angen eu hadnewyddu ar ddiwedd y cyfnod.<br><br>Cytunwyd<br>i. awdurdodi ad-daliad i DAP am adnewyddu'r batris<br>ii. gofyn i MW archwilio'r posibilrwydd o yswirio'r defibs a'r Pwyllgor i ystyried y mater ymhellach yn y cyfarfod nesaf<br>iii. y dylai EH a DH, sydd a'r defibs yn eu meddiant ar y pryd, edrych a yw'r padiau angen eu hadnewyddu neu beidio ac awdurdodi DAP i archebu rhai newydd os angen<br>iv. argymell fod pob arweinydd yn cynnau'r peiriant cyn y daith er mwyn sicrhau ei fod yn gweithio<br><br><u>B. Llochesi</u><br><br>Gan nad oes ond nifer gyfyngedig o lochesi ar gael cytunwyd y bydd y lloches sydd ym meddiant SW yn mynd i arweinydd y daith ganlynol efo'r defib, a'r drefn i gychwyn gyda taith SW ar 8 Chwefror 2025.<br><br><u>C. Cyffredinol</u><br><br>Cytunwyd mai da o beth fyddai i'r rhestr offer gael ei chynnwys ar y wefan fel bod pawb yn gallu gweld pwy sydd ag offer, megis y llochesi, yn eu meddiant er mwyn eu benthyg os angen | |
| **5.** | **<u>CYFARFOD BLYNYDDOL 2024</u>**<br><br>Cyflwynwyd, er gwybodaeth, gofnodion Cyfarfod Blynyddol 2024 a gynhaliwyd yng Ngwesty'r Oakley Arms , Maentwrog nos Sadwrn 16eg Tachwedd.<br><br>Ystyriwyd y materion canlynol a godwyd:<br><br>a. Tâl Aelodaeth 2026 – Eitem 5<br><br>Adroddodd DAP<br><br>• fod angen i'r Pwyllgor ystyried yn ystod y flwyddyn a yw am argymell codi'r tâl aelodaeth yn sylweddol i gwrdd â'r cynnydd yn y taliadau i'r CMP yng Nghyfarfod Blynyddol 2025<br><br>• mai un o 'r prif fanteision o fod yn aelod o'r CMP yw eu polisi yswiriant ond yn sgil y cynnydd sylweddol a ddylid edrych a oes ffynhonnell amgen o yswiriant ar gael.<br><br>Cytunwyd y dylai pawb geisio cysylltu â gwahanol gymdeithasau/cyrff i holi os oes ffynonellau gwahanol (ac o bosib rhatach) o yswiriant ar gael ar gyfer gweithgareddau awyr agored ac adrodd yn ôl i'r cyfarfod nesaf.<br><br>b. Digideiddio'r Archif - Eitem 8<br><br>Cytunwyd y byddai SW yn cysylltu â'r Llyfrgell Genedlaethol i holi a fyddai modd iddynt dderbyn y dogfennau a gasglwyd yn yr Archif ac a fyddent y n fodlon eu digideiddio maes o law.<br><br>C. Cymorth i Iolo gyda'r wefan - Eitem 8<br><br>Cytunwyd, er mwyn dechrau symud ymlaen â hyn, ac er mwyn cael gwell syniad o natur y | |

| | | |
|---|---|---|
| | gwaith dan sylw, y byddai IAG a MW yn cyfarfod drwy Zoom ac yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor<br><br>Ch. Ymgyrch Eryl i gasglu enwau Cymraeg – Eitem 13.<br><br>Adroddodd EH fod grŵp o aelodau wedi ei sefydlu a bod Eryl wedi anfon y dogfennau perthnasol atynt cyn iddynt ddod at ei gilydd i'w trafod. | |
| **6.** | **<u>CYNLLUNIO RHAGLEN WEITHGAREDDAU'R CLWB</u>**<br><br>Adroddodd RR fel a ganlyn:<br><br>• yn ystod y cyfnod Ionawr i Ebrill roedd wedi llwyddo i gael taith bron bob penwythnos yn y gogledd gyda 15 o deithiau wedi eu trefnu. Roedd 3 taith ar y gweill yn y de ond bosib y gallai gynyddu ac roedd yn disgwyl am fanylion y teithiau Mercher.<br><br>• holodd a oedd gwerth mewn cynnal taith flasu ar gyfer darpar aelodau unwaith eto eleni<br><br>• bod DP yn trefnu taith 'O'r Ffin i'r Môr dros y Mynyddoedd' a fyddai'n cynnwys 2 noson o wersylla<br><br>• ei fod yn hynod o ddiolchgar i KR am ei holl waith yn trefnu'r teithiau i'r Alban. Derbyniwyd 14 o enwau ar gyfer y daith i Crianlarich ym mis Chwefror a dim ond ychydig o lefydd sydd ar ôl ar gyfer y daith i'r Cairngorms ym mis Mai<br><br>Cytunwyd<br><br>i. diolch i RR am ei holl waith yn paratoi'r rhaglen weithgareddau ac i bawb oedd wedi gwirfoddoli i arwain teithiau'r Clwb<br><br>ii. byddai SW yn trefnu taith flasu yn ystod yr haf ac os yn ymarferol dylid cael taith flasu yn y de hefyd ar yr un pryd<br><br>iii gofyn i MW drefnu cyhoeddusrwydd digidol ar gyfer y gweithgareddau blasu. | |
| **7.** | **<u>ARCHIF Y CLWB</u>**<br><br>Nodwyd yr ystyriwyd y mater yma eisoes o dan eitem 5. | |
| **8.** | **<u>EISTEDDFOD GENEDLAETHOL 2025</u>**<br><br>Adroddodd EH fod Paula Roberts wedi cytuno i draddodi'r ddarlith eleni am agweddau ar amgylchedd y mynyddoedd<br><br>Cytunwyd<br>i. bydd SW yn cysylltu ag EH pan fydd y ffenestr i archebu slotiau ym Mhabell y Cymdeithasau wedi ei agor gan yr Eisteddfod.<br>ii. gofyn i RR geisio cael taith gerdded yn yr ardal yn ystod yr wythnos<br>iii. gellir ystyried cyhoeddusrwydd ac ati ar gyfer y gweithgareddau yn y cyfarfod nesaf. | |
| **9.** | **<u>MATERION CMP</u>**<br><br>Adroddodd SW nad oedd dim i'w adrodd ar hyn o bryd. | |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| **10.** | **MATERION Y BARTNERIAETH AWYR AGORED**<br><br>Adroddwyd ar y canlynol gan DP<br><br>• y talwyd £150 fel tâl aelodaeth y Clwb i'r Bartneriaeth am eleni sy'n golygu bod cymorth o hyd at £500 ar gael ar gyfer hyfforddiant mynydda i aelodau<br>• y gallasai Sian Williams ddarganfod ffynonellau ychwanegol o arian o wahanol gyfeiriadau (yn ychwanegol i'r £500) ac felly ei bod wastad yn werth holi os oedd rhywun â diddordeb mewn dilyn unrhyw gwrs hyfforddiant<br>• bod trefniadau ar y gweill i gynnal cwrs cymorth cyntaf yn y de a bod ambell aelod yn y gogledd hefyd wedi mynegi diddordeb mewn cwrs cymorth cyntaf.<br><br>Cytunwyd nodi'r wybodaeth. | |
| **11.** | **CYFARFODYDD Y PWYLLGOR**<br><br>Holodd EH, er bod defnyddio Zoom i gynnal cyfarfodydd y Pwyllgor yn galluogi aelodau o bob rhan o Gymru i gymryd rhan, a oedd unrhyw werth mewn ystyried trefnu cyfarfod ar ffurf hybrid h.y. bod rhai aelodau yn bresennol ar safle megis Plas y Brenin yng Nghapel Curig a bod eraill yn ymuno â'r cyfarfod drwy Zoom.<br><br>Cytunwyd, gan fod manteision pendant o ddefnyddio Zoom i gynnal y cyfarfodydd, gan gynnwys arbed teithio, ac i osgoi creu cymhlethdodau, y dylid cadw at y drefn bresennol am y tro. | |
| **12.** | **POLISIAU'R CLWB**<br><br>Adroddodd DAP<br><br>• bod nifer o bolisïau yn ymwneud â rheoli gweithgareddau'r Clwb wedi eu mabwysiadau gan y Pwyllgor dros y blynyddoedd<br>• bod y polisïau i'w gweld ar wefan y Clwb o dan y pennawd "Beth yw'r Clwb"<br>• byddai o fudd i'r Pwyllgor adolygu'r polisïau hyn yn achlysurol er mwyn sicrhau ei fod yn ymwybodol ohonynt , eu bod yn cwrdd â gofynion ac yn gyfredol.<br><br>Cytunwyd derbyn y cynnig a chytuno y bydd y Pwyllgor yn edrych ar y polisïau asesu risg a chanllawiau teithiau preswyl yn y cyfarfod nesaf. | |
| **13.** | **CYFARFOD NESAF Y PWYLLGOR**<br><br>Cytunwyd y bydd cyfarfod nesaf y Pwyllgor yn cael ei gynnal am 8pm, nos Lun 28ain o Ebrill, 2025, drwy gyfrwng Zoom. | |